



Department
for Environment
Food & Rural Affairs

Ymgynghoriad ar Labelu Effeithlonrwydd Dŵr Gorfodol

Medi 2022

Ni yw Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Rydym yn gyfrifol am wella a gwarchod yr amgylchedd, tyfu'r economi werdd, cynnal cymunedau gwledig ffyniannus a chefnogi ein diwydiannau bwyd, ffermio a physgota o'r radd flaenaf.

Ymgynghoriad ar y cyd yw hwn rhwng Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a'r Adran Seilwaith yng Ngogledd Iwerddon a'r Adran Amaethyddiaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig yng Ngogledd Iwerddon.

Rydym yn gweithio'n agos gyda'n 33 o asiantaethau a chyrff hyd braich ar ein huchelgais i wneud ein haer yn fwy pur, ein dŵr yn fwy glân, ein tir yn fwy gwyrdd a'n bwyd yn fwy cynaliadwy. Ein cenhadaeth yw adfer a gwella'r amgylchedd ar gyfer y genhedlaeth nesaf, a gadael yr amgylchedd mewn cyflwr gwell nag oedd pan gawsom ef.



© Hawlfraint y Goron 2022

Mae'r wybodaeth hon wedi'i thrwyddedu o dan Drwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom yn

water.resources@defra.gov.uk

www.gov.uk/defra

Cynnwys

Cyflwyniad	4
Cynllun Labelu Effeithlonrwydd Dŵr Gorfodol Arfaethedig	5
Dull cynllun labelu.....	5
Cynhyrchion sy'n cael eu cwmpasu gan y label	5
Dyluniad a nodweddion y label	6
Arddangos y label.....	9
Gofynion i gefnogi labelu effeithlonrwydd dŵr gorfodol	10
Lleihau effeithiau ar yr amgylchedd naturiol.....	13
Costau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd	13
Effeithiau ar fusnesau bach a chydraddoldeb	14
Camau Nesaf.....	15
Atodiad A Ymateb i'r ymgynghoriad hwn	16

Cyflwyniad

Mae newid hinsawdd a thwf mewn poblogaeth yn rhoi mwy o bwysau ar ein hadnoddau dŵr. Mae'r cynllun adnoddau dŵr rhanbarthol diweddaraf yn nodi y bydd angen 4,000 miliwn litr o ddŵr ychwanegol y dydd arnom erbyn 2050, bron i draean (28.5%) o'r dŵr cyhoeddus sy'n cael ei gyflenwi yn Lloegr ar hyn o bryd. Fel yr amlinellwyd yn Adolygiad Asiantaeth yr Amgylchedd o gynlluniau adnoddau dŵr rhanbarthol Lloegr, bydd angen i dros hanner hyn ddod o leihau'r galw am ddŵr - 2,000 miliwn o litrau o ddŵr y dydd. Mae hyn tua'r un faint o ddŵr sydd ei angen i gyflenwi dinasoedd Llundain, Caerdydd, Belfast, Glasgow a Chaeredin gyda'i gilydd.

Roedd Datganiad Ysgrifenedig Gweinidogol Llywodraeth y DU yn 2021 ar leihau'r galw am ddŵr yn cynnwys cam gweithredu *“i wneud rheoliadau i gyflwyno label effeithlonrwydd dŵr gorfodol i hysbysu defnyddwyr ac i annog mwy o gynhyrchion sy'n effeithlon o ran dŵr i gael eu prynu at ddefnydd domestig a busnesau”*. Bydd y polisi hwn hefyd yn helpu i gyflawni'r Targed Galw am Ddŵr arfaethedig o dan Ddeddf yr Amgylchedd 2021 (y ddeddf) yn Lloegr a blaenoriaethau ar gyfer defnydd cynaliadwy o ddŵr yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mae Effeithlonrwydd Dŵr yn faes polisi lle mae cyfrifoldeb wedi'i ddatganoli, felly mae hwn yn ymgynghoriad ar y cyd ar ran Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a'r Adran Amaethyddiaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig yng Ngogledd Iwerddon.

Rydym yn chwilio am safbwyntiau ar ein bwriad i gyflwyno Label Effeithlonrwydd Dŵr Gorfodol yn y DU drwy is-ddeddfwriaeth o dan adran 52 ac Atodlen 6 o Ddeddf yr Amgylchedd 2021. Mae'r ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod cenedlaethol perthnasol ymgynghori ag unrhyw bersonau y mae'r awdurdod yn eu hystyried yn briodol a rhoi sylw i'r graddau y mae'r rheoliadau arfaethedig yn debygol o leihau effaith y cynnyrch ar yr amgylchedd naturiol ar unrhyw gam o'i gynhyrchu, ei ddefnyddio neu ei waredu; costau amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd neu gostau eraill o gydymffurfio â'r rheoliadau; ac, a ddylid rhoi eithriadau, neu wneud darpariaeth arbennig arall ar gyfer busnesau bach. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn cwestiynau am ein cynigion polisi a'r costau a'r buddion i gefnogi ein Hasesiad Effaith yn y dyfodol.

Bydd Label Effeithlonrwydd Dŵr Gorfodol yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar ddefnyddwyr i wneud penderfyniadau gwybodus wrth brynu cynhyrchion newydd sy'n defnyddio dŵr yn eu cartrefi. Bydd hefyd yn helpu datblygwyr a chwmnïau dŵr i wella effeithlonrwydd dŵr mewn adeiladau.

Gweler Atodiad A am sut i ymateb i'r ymgynghoriad hwn a'r cwestiynau sy'n ymwneud â chyfrinachedd a rhannu gwybodaeth. Mae Atodiad B yn cynnwys rhestr o sefydliadau rhanddeiliaid fu'n gysylltiedig â'n gweithdai cyn ein hymgyngoriad a'r grŵp llywio.

Cynllun Labelu Effeithlonrwydd Dŵr Gorfodol Arfaethedig

Dull cynllun labelu


Mae ein dull yn seiliedig ar ISO 31600:2022 Rhaglenni labelu effeithlonrwydd dŵr - gofynion gyda chanllawiau gweithredu. Mae'r safon ISO yn darparu set o arferion gorau, canllawiau ar gyfer paratoi a gweithredu rhaglen labelu effeithlonrwydd dŵr gorfodol ar gyfer cynhyrchion plymio a pheiriannau sy'n defnyddio dŵr ac yn cynnwys cynrychiolwyr o'r DU. Mae'r cynllun Label Dŵr Unedig gwirfoddol ar hyn o bryd hefyd wedi bodloni'r safon ISO hwn. Credwn y dylai'r dull hwn o ddatblygu'r label effeithlonrwydd dŵr gorfodol leihau costau i fusnesau'r DU, yn gwella mynediad i farchnadoedd tramor i gynhyrchwyr y DU, ac yn cynyddu cydymffurfiaeth â'r cynllun yn y DU.

Rydym yn ystyried rhaglen labelu mewn bandiau (haenog) sy'n caniatáu i gynhyrchion gael eu labelu â lefelau graddedig amrywiol o ddefnydd dŵr, yn debyg i'r label effeithlonrwydd ynni.

Cynhyrchion sy'n cael eu cwmpasu gan y label

Ar ôl trafodaethau gyda grŵp o randdeiliaid, rydym yn argymhell mai'r cynhyrchion y dylai fod angen label effeithlonrwydd dŵr arnynt yw: toiledau, wrinalau, tapiau sinc y gegin, tapiau basn ystafell ymolchi, dyfeisiau cawod heb fod yn rhai trydan a datrysiadau cydosod cawod, peiriannau golchi llestri, peiriannau golchi a pheiriannau golchi/sychu cyfun. Mae'r rhain yn cael eu diffinio yn ISO 31600:2022 ac yn dod o dan gynlluniau labelu rhyngwladol tebyg.

Mae'r Ffigur isod yn dangos y dadansoddiad o'r defnydd o ddŵr mewn cartrefi fel yr amlinellwyd yn ymchwil Dŵr yn y Cartref yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni. Cawodydd sy'n defnyddio'r rhan fwyaf o ddŵr yn y cartref (25%), yna toiledau (22%), a dŵr oer o'r tapiau (22%) a ddefnyddir i lanhau dannedd, coginio, glanhau ac yfed. I nifer o fusnesau, y mathau domestig hyn o ddefnyddio dŵr sy'n cyfrif am y rhan fwyaf o'r defnydd hefyd. Mae hyn yn cefnogi ein penderfyniad i ganolbwyntio ar labelu'r cynhyrchion a restrir.



Cwestiwn 1: A yw'r rhestr o gynhyrchion a ddewiswyd gennym yn gosod y lefel gywir o uchelgais? [ydy, nac ydy]

[Os nac ydy, amlinellwch pam ddim a pha gynnyrch/cynhyrchion eraill y gallem ystyried eu labelu yn y dyfodol a pham? [testun agored]

Dyluniad a nodweddion y label

Rydym yn argymhell cyflwyno label effeithlonrwydd dŵr pwrpasol. Bydd yr opsiwn yn sicrhau bod sgoriau effeithlonrwydd dŵr yn cael eu nodi'n glir ar gynhyrchion i ddefnyddwyr, a chefnogwyd yr opsiwn hwn gan randdeiliaid. Bydd cyflwyno label effeithlonrwydd dŵr penodol drwy'r rheoliadau a wnaed drwy ddefnyddio pwerau a roddwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd 2021 yn ein galluogi i wneud dŵr yn amlwg ar y label, i ddewis y ffordd y caiff gwybodaeth am effeithlonrwydd dŵr ei chyflwyno a'i ddefnyddio ar y cynhyrchion sy'n defnyddio dŵr y bwriadwn eu rhoi o dan ein cynigion.

Archwiliwyd y posibilrwydd o gynnwys dŵr ar labeli effeithlonrwydd ynni a gyflwynwyd drwy ddefnyddio'r pwerau a gadwyd yn y Rheoliad Fframwaith Labeli Ynni (UE) 2017/1369, serch hynny, nid ydym yn mynd ar drywydd yr opsiwn hwn, oherwydd pe byddem yn gwneud hynny, byddem yn gyfyngedig o ran y cynhyrchion sy'n defnyddio dŵr

y gallem eu cwmpasu ac yn gyfyng o ran sgôp o ran y wybodaeth am effeithlonrwydd dŵr y gallem ei chynnwys.

Cwestiwn 2:

I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno mai label dŵr pwrpasol yw'r ffordd fwyaf addas o gyflwyno polisi label effeithlonrwydd dŵr? [cytuno'n gryf, cytuno, niwtral, anghytuno, anghytuno'n gryf, ddim yn gwybod/dim ateb]

Rydym yn argymhell cyflwyno labeli deuol ar gyfer peiriannau golchi, peiriannu golchi llestri a pheiriannau golchi/sychu, sydd eisoes â label ynni. O'r cynhyrchion a restrir uchod, mae peiriannau golchi llestri, peiriannau golchi a pheiriannau golchi/sychu eisoes yn dod o dan Label Ynni'r DU. Ceir rhywfaint o wybodaeth am y defnydd o ddŵr ar y label hwn, ond nid ystyrir ei fod yn glir ac yn syml i ddefnyddwyr (h.y. un rhif ac nid mewn bandiau). Nid oes gan gynhyrchion dŵr nad ydynt yn gysylltiedig ag ynni y label hwn ac felly nid oes unrhyw wybodaeth am y defnydd o ddŵr sy'n gysylltiedig â nhw.

Cefnogodd rhanddeiliaid labelu deuol yn y gweithdai cyn yr ymgynghoriad, fodd bynnag mynegodd rhai bryder ynglŷn â'r baich rheoleiddio cynyddol ar weithgynhyrchwyr yn sgil cyflwyno label effeithlonrwydd dŵr gorfodol ar gynhyrchion sydd angen Label Ynni y DU ac sydd eisoes yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth am effeithlonrwydd dŵr (er enghraifft, peiriannau golchi, peiriannu golchi llestri a pheiriannau golchi/sychu). Serch hynny, mae labelu deuol yn gyffredin mewn nifer o wledydd (enghreifftiau yn Atodiad C).


Cwestiwn 3: Ym mha ffyrdd y gall effeithiau labelu deuol ar weithgareddau gael ei leihau? [testun agored]

Dylunio'r Label

Rydym yn argymhell y dylai'r label effeithlonrwydd dŵr sy'n cael ei ffafrio fod yn:

- label pwrpasol neu label ar wahân
- cynllun syml – gan gynnwys cyn lleied o eiconau â phosib os oes eu hangen
- dangos cyfradd llif y dŵr neu'r defnydd fesul cylchred (h.y. X litr/mun)
- dilyn cynllun y label ynni cyfredol, ond bod modd ei adnabod, er enghraifft, drwy liw gwahanol.

Mae'r Ffigur isod yn dangos ein hopsiynau dylunio arfaethedig ar gyfer label effeithlonrwydd dŵr gorfodol, sy'n adlewyrchu mewnbwn rhanddeiliaid. Mae'n bosib y bydd achlysuron, fel delweddau bach mewn catalog, delweddau ar-lein neu ar eitemau llai sydd wedi'u pecynnu, lle gallai fod angen fersiwn lai o'r label effeithlonrwydd dŵr. Defnyddiwyd dull tebyg gyda'r label ynni, felly rydym wedi datblygu 'dyluniad cryno-lun' sydd hefyd yn y Ffigur isod.



Rydym yn argymhell bod y rheoliadau sy'n cyflwyno'r label effeithlonrwydd dŵr gorfodol yn nodi dyluniad a manyleb y label sy'n seiliedig ar ISO3600:2022. Bydd hyn yn cynnwys:

cynrychiolaeth o'r sgoriau (er enghraifft, bariau a lliwiau)
dyluniad y label

lle mae angen gosod y label a maint y label
math o ffont er enghraifft, Arial
maint y ffont

iaith, er enghraifft, yr holl wybodaeth yn Saesneg

gwybodaeth y label effeithlonrwydd dŵr er enghraifft, sgôr, brand, rhif model,
defnydd o ddŵr, math o gynnyrch, lle i faint o lestri sydd yn y peiriant (peiriannau
golchi llestri), capasiti wedi'i sgorio (peiriannau golchi dillad neu beiriannau
golchi/sychu er enghraifft, lle i faint o lestri / kg o lwyth golchi);

gwybodaeth ychwanegol ar y label (er enghraifft, defnyddio safon brawf gyda'r
cynnyrch, enw'r cyflenwr, sut y bwriedir ei ddefnyddio, dimensiynau label,
manylebau lliw, rhif cofrestru, cod QR

Cwestiwn 4: I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y label enghreifftiol yn darparu gwybodaeth am effeithlonrwydd dŵr i ddefnyddiwr?

[cytuno'n gryf, cytuno, niwtral, anghytuno, anghytuno'n gryf, ddim yn gwybod/dim ateb]

Cwestiwn 5: A oes angen unrhyw elfennau ychwanegol yn y manyleb labelu? [testun agored]

Gwybodaeth am ynni ar labeli effeithlonrwydd dŵr (tapiau a chawodydd nad ydynt yn rhai trydan)

Yn y datganiad Gweinidogol Ysgrifenedig yn 2021, gwnaethom ymrwymo i ystyried y potensial i gyflawni arbedion ynni, yn ogystal ag arbedion dŵr pellach, ac i archwilio sut gellir cyflawni hynny mewn ffordd sy'n lleihau'r effaith ar ddefnyddwyr. Mae angen ynni i

gynhesu'r dŵr a ddefnyddir mewn tapiau a chawodydd nad ydynt yn rhai trydan, mae cynhyrchion dŵr mwy effeithlon yn defnyddio llai o ddŵr ac felly mae angen llai o ynni ar gyfer y broses wresogi.

Cwestiwn 6: I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y byddai cynnwys gwybodaeth am ynni ar y label yn fuddiol (ar gyfer tapiau a chawodydd nad ydynt yn rhai trydan)?

[cytuno'n gryf, cytuno, niwtral, anghytuno, anghytuno'n gryf, ddim yn gwybod/dim ateb]

Cwestiwn 7: Beth fyddai'r ffordd fwyaf effeithiol o gynnwys gwybodaeth am ynni ar y label.? [testun agored]

Arddangos y label

Maint y rhwymedigaeth

Gall y rheoliadau rydym yn bwriadu eu hargymell i gyflwyno'r label effeithlonrwydd dŵr gorfodol drwy ddefnyddio pwerau Deddf yr Amgylchedd 2021 fod yn berthnasol i bersonau sy'n gysylltiedig â gweithgynhyrchu, mewnfario, dosbarthu, gwerthu neu gyflenwi'r cynnyrch. Rydym yn argymell gosod y rhwymedigaethau canlynol ar y personau a ganlyn:

- y cyflenwr sy'n rhoi cynnyrch a reoleiddir ar y farchnad gyntaf, neu'n ei roi ar waith, fyddai'n gyfrifol am hunan-asesu sgôr effeithlonrwydd dŵr eu cynnyrch/cynhyrchion a'u labelu yn unol â hynny fel y rhagnodir gan ofynion y rheoliadau. Mae hyn yn ymestyn i unrhyw ffordd o werthu ar-lein, gwerthu o bell, hurio a hurbwrcasu
- ystyrir mai'r cyflenwr yw'r gweithgynhyrchydd, y cynrychiolydd awdurdodedig neu fewnforiwr cynnyrch lle bo angen label effeithlonrwydd dŵr gorfodol
- byddai gan y deliwr (er enghraifft, cyfanwerthwr y cynnyrch) neu'r manwerthwr (er enghraifft, siop neu fanwerthwr ar-lein yn uniongyrchol i'r cyhoedd) rwymedigaethau i arddangos yn glir y labeli effeithlonrwydd dŵr gorfodol a ddarparwyd gan gyflenwyr gyda'u cynhyrchion wrth eu harddangos neu eu gwerthu, yn unol â'r hyn a nodir yn y rheoliadau. Mae hyn yn cynnwys dulliau gwerthu mewn siopau a thrwy werthu o bell, fel gwerthu ar y we a chatalogau

Gwelededd y Label

Rhaid i'r label effeithlonrwydd dŵr fod yn weladwy i'r cwsmer. Rydym wedi amlinellu ein hargymhellion ar gyfer gweithgynhyrchwyr a manwerthwyr yn Atodiad D. Yn fras:

- dylai'r label gael ei gynhyrchu neu ei argraffu yn llawn neu'n fwy yn gymesur, yn unol â manyleb y label, neu mewn unrhyw achos, o faint y gellir ei ddarllen a'i ddeall yn rhesymol gan ddefnyddwyr.
- ar gyfer ystafelloedd arddangos, os yw eitem yn cael ei harddangos heb becynnu, unrhyw le mewn ystafell arddangos neu ffenestr arddangos, rhaid i'r eitem gael y label llawn arni neu'n union gyfagos iddi, er enghraifft wrth ymyl y pris.

- dylai hysbysebu gynnwys y cryno-lun a'r label llawn.

Cwestiwn 8: I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y gofynion arddangos yn addas i sicrhau bod y label dŵr yn weladwy i'r cwsmeriaid?

[cytuno'n gryf, cytuno, niwtral, anghytuno, anghytuno'n gryf, ddim yn gwybod/dim ateb]

Dylech gynnwys unrhyw sylwadau ychwanegol am yr argymhellion uchod. [testun agored]

Cronfa ddata o gynhyrchion a gofrestrwyd sydd â'r label effeithlonrwydd dŵr gorfodol.

Mae Safon ISO 3600:22 yn argymhell gofynion i gadw system gofnodi gywir o labeli a roddwyd ar gynhyrchion at ddibenion olrhain ac i hwyluso'r broses barhaus o adolygu'r cynllun labelu effeithlonrwydd dŵr gorfodol. Bydd hyn yn cefnogi gweithgarwch cydymffurfio a gorfodi ac yn galluogi datblygwyr a defnyddwyr i adnabod cynhyrchion sy'n effeithlon o ran dŵr yn hawdd, gan gynnwys y rheini sy'n bodloni gofynion Rhan G o'r Ddogfen Gymeradwy sy'n cefnogi rheoliad 36 a Rhan G o Atodlen 1 o Reoliadau Adeiladu 2010. Caiff cronfeydd data eu defnyddio ledled y byd i gefnogi labeli effeithlonrwydd dŵr a labeli effeithlonrwydd ynni. Rydym wedi amlinellu'r wybodaeth y bwriadwn ei chasglu ar gyfer y gronfa ddata yn Atodiad E.

Cwestiwn 9: I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r wybodaeth rydym yn ei hargymhell ar gyfer y gronfa ddata yn Atodiad E?

Cwestiwn 10: A ddylai unrhyw wybodaeth ychwanegol i'r hyn a nodir yn Atodiad E gael ei chynnwys mewn cronfa ddata? [dylai, na ddylai (os dylai, eglurwch - testun agored)]

Gofynion i gefnogi labelu effeithlonrwydd dŵr gorfodol

Mae'r Safon ISO 31600:2022 (rhaglenni labelu effeithlonrwydd dŵr) yn nodi, fel rhagofyniad, y dylai'r holl gynhyrchion plymio sydd wedi'u labelu a'r holl gydrannau sy'n rhan o gydosod cynhyrchion sydd wedi'u labelu, gydymffurfio â'r holl ofynion sydd wedi'u cynnwys yn y rheoliadau cenedlaethol cymwys neu Safonau cenedlaethol y genedl lle bwriedir eu gosod. Mae'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni wedi amlygu amrywiaeth o safonau perthnasol.

Mynegodd rhanddeiliaid bryderon i beidio â rhoi baich ychwanegol ar weithgynhyrchwyr drwy ddatblygu gofynion profi newydd ar gyfer cynhyrchion, lle bo'n rhaid i gyflenwyr hunan-asesu sgoriau effeithlonrwydd dŵr eu cynhyrchion, ac fel arall, i ddefnyddio prosesau profi sy'n bodoli'n barod lle bo modd. Rydym yn argymhell y datblygir unrhyw ofynion profi a nodir yn y rheoliadau gan arbenigwyr technegol priodol gyda chymorth y Sefydliad Safonau Prydeinig (BSI), y Pwyllgor Safoni Ewropeaidd (CEN) ac sy'n gyson â gofynion profi hanfodol ISO 3600:2022. Drwy ddefnyddio'r un dull, rydym hefyd yn

argymell datblygu'r ystodau llif/defnydd dŵr sy'n sail i'r sgoriau effeithlonrwydd dŵr ar y label.

Byddwn yn ystyried gofynion profi a sgoriau yng nghyd-destun unrhyw newidiadau i reoliadau adeiladu yn dilyn ein map trywydd ar effeithlonrwydd dŵr mewn datblygiadau newydd a gwaith ôl-osod.

Cwestiwn 11: A oes unrhyw safonau neu reoliadau cyfredol y tu hwnt i'r rhai a restrir ar dudalennau 99-104 o adroddiad technegol yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni, a allai gael goblygiadau ar gyflwyno labelu effeithlonrwydd dŵr gorfodol?

Amlinellwch a rhowch esboniad [testun agored]

Pennu'r cyfraddau llif uchaf ar gyfer peiriannau (safonau gofynnol).

Mae canfyddiadau'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni (EST) yn awgrymu cynllun labelu effeithlonrwydd dŵr gorfodol, sy'n gysylltiedig â rheoliadau adeiladu a safonau gofynnol (sy'n cynnwys pennu'r cyfraddau llif uchaf ar gyfer cynhyrchion), i fod y dull mwyaf cost-effeithiol o gyflawni arbedion effeithlonrwydd dŵr. Daeth y dull cyfunol hwn hefyd i'r brig o ran arbedion dŵr, arbedion carbon ac arbedion cost i ddefnyddwyr. Cyflwynodd y modelu yn y dadansoddiad hwn gyfradd llif uchaf ym mlwyddyn 5 ar ôl cyflwyno label effeithlonrwydd dŵr gorfodol, gyda diwygiadau'n cael eu gwneud i dynhau'r gyfradd llif honno ym mlynnyddoedd 8 ac 11. Yn y dyfodol efallai y byddwn yn ystyried ymgynghori ar gynigion polisi i gyflwyno safonau gofynnol ar gynhyrchion sy'n defnyddio dŵr.

Gorfodi

Mae gorfodi effeithiol yn hanfodol i sicrhau ein bod yn cyflawni ein hamcanion polisi i leihau'r defnydd o ddŵr cyhoeddus ac i orfodi gofynion cynllun labelu effeithlonrwydd dŵr gorfodol.

Mae darpariaethau Deddf yr Amgylchedd 2021 yn cynnig fframwaith cynhwysfawr i'r awdurdod cenedlaethol perthnasol bennu, drwy is-ddeddfwriaeth, gyfundrefn orfodi fanwl. Rydym yn argymell bod rhai agweddau ar y gyfundrefn orfodi yn dilyn cynseiliau a osodwyd gan gyfreithiau ac arferion cyffredin eraill lle bo'n berthnasol.

Dynodi awdurdod gorfodi

Gall yr awdurdod cenedlaethol perthnasol gadw swyddogaethau gorfodi neu roi'r swyddogaethau hynny i gorff neu gyrff rheoleiddio (o hyn ymlaen cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel 'awdurdod gorfodi'). Mae rhoi'r swyddogaethau hynny yn galluogi'r awdurdod gorfodi i gyflawni dyletswyddau perthnasol.

Dylai tair prif swyddogaeth yr awdurdodau gorfodi fod:

- monitro cydymffurfiaeth: er enghraifft, drwy gynnal gwiriadau cydymffurfiaeth ar gynhyrchion ac arddangosfeydd mewn siopau.

- ymchwilio cydymffurfiaeth: er enghraifft, drwy gasglu tystiolaeth bellach i nodi a yw parti wedi torri'r gofyniad i roi label effeithlonrwydd dŵr gorfodol ar gynnyrch sy'n defnyddio dŵr, diwydrwydd dyladwy ac adrodd.
- gosod sancsiynau pan fydd gofyniad wedi'i dorri er mwyn dod â busnesau sydd mewn sgôp yn ôl i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth, drwy ddefnyddio sancsiynau sifil a nodir yn Neddf yr Amgylchedd 2021.

Wrth benderfynu ar gorff neu gyrff rheoleiddio cyfrifol, rydym o'r farn y dylai'r rheoleiddwyr gael:

- cylch gwaith DU-gyfan i sicrhau bod gan yr awdurdod gorfodi bwerau i weithredu ar draws tiriogaeth unrhyw ddefnydd posibl o'r rheoliadau.
- y gallu i reoleiddio drwy ganolfannau arbenigedd sydd wedi ennill eu plwyf er mwyn gorfodi'r rheoliadau'n effeithiol.
- y gallu a'r profiad i gyflawni swyddogaethau monitro ac ymchwilio i gydymffurfiaeth a gosod sancsiynau sifil pan fydd y gofynion wedi'u torri.

Cwestiwn 12:

Amlinellwch y meini prawf y credwch y dylai'r awdurdod gorfodi eu cyflawni, ac eglurwch eich rhesymau? [testun agored]

Crynodeb o'r drefn orfodi

Yn unol â'r fframwaith a nodir yn Neddf yr Amgylchedd 2021, bydd is-ddeddfwriaeth yn rhoi manylion am:

- sut gall yr awdurdod cenedlaethol perthnasol gasglu gwybodaeth i fonitro cydymffurfiaeth yn effeithiol
- sut dylai'r awdurdod gorfodi dderbyn a rhannu gwybodaeth gyda'r awdurdod cenedlaethol perthnasol, gydag awdurdodau gorfodi eraill ac adrannau llywodraeth y DU
- sut dylai'r awdurdod gorfodi rannu gwybodaeth drwy adroddiadau ar ba fusnesau rheoledig y rhoddwyd sancsiynau sifil iddynt
- sut gall yr awdurdod gorfodi ymchwilio i gydymffurfiaeth – bydd hyn yn cynnwys manylion cyfres o bwerau ymchwilio safonol a sut gall yr awdurdod gorfodi eu defnyddio, gan gynnwys unrhyw gyfyngiadau
- sut gall yr awdurdod gorfodi ddefnyddio sancsiynau sifil pan fydd busnes wedi torri rheoliadau i ddod â'r troseddwr yn ôl i gydymffurfio
- y mathau o weithdrefnau troseddol y gellir eu defnyddio ar droseddwr sydd wedi methu â chydymffurfio â sancsiynau sifil a osodwyd, neu sy'n rhwystro neu'n methu â chynorthwyo awdurdod gorfodi i weithredu eu dyletswyddau
- y broses apeliadau, pe bai busnes yn anghytuno â sancsiwn sifil neu droseddol
- y dull o godi tâl ar fusnesau a reoleiddir am gost gweithgarwch gorfodi - bydd hyn yn cynnwys tâl cyfartal am bob busnes a reoleiddir i adennill cyfanswm cost gweithgarwch gorfodi ym mhob blwyddyn

Byddwn yn cynnig canllawiau i fusnesau ar sut caiff sancsiynau sifil eu defnyddio. Rydym yn bwriadu archwilio sut mae'r drefn orfodi sydd eisoes ar waith yn cyd-fynd â'r drefn o orfodi labelu ynni.

Cwestiwn 13:

I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynllun gorfodi labelu effeithlonrwydd dŵr gorfodol? [cytuno'n gryf, cytuno, dim ffafriaeth, anghytuno, anghytuno'n gryf.]

Cwestiwn 14:

A oes gennych unrhyw sylwadau pellach am y cynllun gorfodi? [testun agored]

Lleihau effeithiau ar yr amgylchedd naturiol

Gall tynnu dŵr o gyflenwad dŵr cyhoeddus gael effaith sylweddol ar ein hafonydd, yn enwedig nentydd sialc. Mae tua hanner y 4,000 miliwn o litrau o ddŵr y dydd, sydd ei angen erbyn 2050, yn cael ei lywio gan yr angen i adael mwy o ddŵr yn yr amgylchedd. Nod cyflwyno label effeithlonrwydd dŵr gorfodol yw cyfrannu at leihau galw'r cyhoedd am ddŵr. Dylai hyn arwain at nifer o effeithiau amgylcheddol positif, gan gynnwys arbed 1.5litr/fesul person/fesul diwrnod ar ôl 10 mlynedd, gan gyrraedd 13l/p/d ar ôl 25 mlynedd, gan leihau faint o ddŵr sy'n cael ei dynnu, ac felly'n gadael mwy i gynnal yr amgylchedd naturiol. Bydd hefyd yn cefnogi arbedion o 492,924 tonnell o allyriadau sy'n cyfateb i garbon deuocsid (tCO₂e) drwy ddefnyddio llai o ddŵr poeth mewn cartrefi dros ddeng mlynedd. Mae'r adran hon yn cynnig trosolwg, ond mae'r manylion llawn i'w gweld yn Atodiad F – Asesiad Effaith.

Cwestiwn 15: I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y ffigurau hyn yn gywir? [cytuno'n gryf, cytuno, niwtral, anghytuno, anghytuno'n gryf, ddim yn gwybod/dim ateb]

Rhowch unrhyw wybodaeth i gefnogi eich barn (testun agored)

Costau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd

Y gymhareb o ran cost a budd ar gyfer yr opsiwn rydym yn ei ffafrio yw 1:73 a rhagwelir y bydd yn costio £4.1 miliwn i'r llywodraeth dros gyfnod o 10 mlynedd, a thua £19.1 miliwn i weithgynhyrchwyr dros yr un cyfnod. Ni ystyrir bod unrhyw gostau amgylcheddol, dim ond buddion, ac ni ddisgwylir i'r defnyddiwr wynebu unrhyw gostau. Rhoddwyd cyfradd ddisgownt o 3.5% ar gyfer yr holl arbedion ariannol am y cyfnod amser a nodwyd.

Bydd cyflwyno labelu effeithlonrwydd dŵr gorfodol yn ein cefnogi i fodloni ein Targed Galw am Ddŵr arfaethedig. Cyfanswm y budd o osgoi'r angen i ymgymryd â chynlluniau cyflenwi newydd yw £875m mewn termau Gwerth Presennol hyd at 2037, a £3,340m i 2100.

Wrth fynd i'r afael â chostau byw, gallai'r polisi hwn helpu i leihau biliau dŵr £125m a biliau ynni £147m dros 10 mlynedd (yn seiliedig ar brisiau 2019). Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg, ond gellir dod o hyd i'r manylion llawn yn Atodiad F – asesiad effaith.

Cwestiwn 16: I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y costau a'r buddion yn gywir? [cytuno'n gryf, cytuno, niwtral, anghytuno, anghytuno'n gryf, ddim yn gwybod/dim ateb]

Rhowch unrhyw wybodaeth i gefnogi eich barn (testun agored)

Effeithiau ar fusnesau bach a chydraddoldeb

Busnesau llai

Rydym yn rhagweld costau cychwynnol byr dymor yn unig wrth weithredu'r cynllun labelu (er enghraifft, arddangos y label mewn siop). Disgwylir i'r rhain fod yn fach iawn a lleihau dros amser. Bydd hyn yn lleihau'r effaith ariannol ar gwmnïau bach a mawr.

Cwestiwn 17: I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno mai effaith gyfyngedig sydd ar gwmnïau llai?

[cytuno'n gryf, cytuno, niwtral, anghytuno, anghytuno'n gryf, ddim yn gwybod/dim ateb]

Rhowch unrhyw wybodaeth i gefnogi eich barn (testun agored)

Effeithiau cydraddoldeb

Rydym wedi ystyried effeithiau cydraddoldeb fel yr amlinellwyd yn Llyfr Gwyrdd y Llywodraeth: gwerthuso ac adolygu mewn llywodraeth ganolog. Wrth gyflwyno'r Label Effeithlonrwydd Dŵr, nid oes gennym unrhyw gynlluniau i gynnwys safonau gofynnol ar gyfer cynhyrchion, rhywbeth sydd wedi'i gyflwyno ar rai cynhyrchion fel rhan o'r label ynni. Mae hyn yn golygu na fydd unrhyw ofyniad i dynnu cynnyrch rhag cael eu gwerthu, ac felly nid ydym yn rhagweld unrhyw effeithiau ar gydraddoldeb, a allai fod wedi digwydd pe byddem yn argymhell tynnu cynnyrch penodol rhag cael ei werthu sydd ei angen ar bersonau sy'n rhannu nodwedd warchoddedig.

Fe wnaethom hefyd archwilio'r angen am eithriadau i'r label gyda rhanddeiliaid, yn enwedig cynhyrchion iechyd a diogelwch, serch hynny, ystyriwyd bod hyn yn gymhleth ac yn ddiangen o ystyried na fydd y cynigion polisi presennol yn ei gwneud yn ofynnol i dynnu

unrhyw gynnyrch oddi ar y farchnad. Mae'r adran hon yn cynnig trosolwg, ond mae'r manylion llawn i'w gweld yn Atodiad F – asesiad effaith.

Cwestiwn 18: I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n hasesiad o effeithiau cydraddoldeb? [cytuno'n gryf, cytuno, niwtral, anghytuno, anghytuno'n gryf, ddim yn gwybod/dim ateb]

Rhowch unrhyw wybodaeth i gefnogi eich barn [testun agored]

Cwestiwn 19: Yn ogystal â'r cwestiynau blaenorol, a oes unrhyw wybodaeth arall yr hoffech ei rhannu ynglŷn â'r labelu effeithlonrwydd dŵr gorfodol arfaethedig? [testun agored]

Camau Nesaf

Mae datblygu'r cynllun labelu effeithlonrwydd dŵr a drafftio'r rheoliadau yn debygol o gael ei gwblhau ddiwedd 2023 pan fyddwn yn gosod yr offeryn statudol, a bydd cyfnod gweithredu (e.e. 18 mis), yn cael ei ganiatáu i alluogi trosglwyddo i'r gofynion newydd. Rydym yn amcangyfrif y bydd y newidiadau yn dod i rym ddechrau 2025. Byddwn yn gweithio gyda'r diwydiant i weithredu'r cynllun yn gynt, gan gynnwys annog cwmnïau dŵr i hyrwyddo'r cynllun a faint sy'n manteisio ar ddyfeisiau sy'n arbed dŵr.

Mae'r label wrth wraidd ein llwybr polisi i gyflwyno ein Targed Galw am Ddŵr arfaethedig o dan Ddeddf yr Amgylchedd 2021. Rydym hefyd wedi gofyn i gwmnïau dŵr amlinellu sut gallant helpu i hyrwyddo'r label hwn a'i ddefnyddio fel rhan o gynlluniau cymell neu ad-dalu.

Bydd llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig yn cydweithio i ystyried y ffordd fwyaf priodol o gyflwyno'r polisi hwn ar ôl yr ymgynghoriad.

Atodiad A - Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

Mae gan ystod eang o randdeiliaid rôl i'n helpu i ddatblygu a chyflwyno Label Effeithiolrwydd Dŵr Gorfodol yn y DU. Mae'r ymgynghoriad hwn yn dechrau ar 2 Medi ac yn dod i ben ar 25 Tachwedd. Rydym yn annog ymatebion drwy arolwg ar-lein Citizen Space, adnodd ymgynghori ar-lein.

Mae ymgynghoriadau yn denu lefel uchel o ddiddordeb ar draws nifer o sectorau, ac mae defnyddio'r adnodd ar-lein yn ein helpu i ddadansoddi ymatebion, gan alluogi i faterion gael eu hystyried yn fwy effeithlon ac effeithiol. Serch hynny, gellir anfon ymatebion ar e-bost neu drwy'r post. Yn eich ymateb nodwch:

- eich enw
- eich cyfeiriad e-bost
- eich sefydliad (os yn gymwys)
- os hoffech i'ch ymateb fod yn gyfrinachol (os ydych, nodwch eich rhesymau)
- ym mha wlad rydych chi'n byw (Cymru, Lloegr, Yr Alban, Gogledd Iwerddon)

Dylid cyfeirio ymholiadau ac ymatebion drwy'r post neu ar e-bost:

- ar e-bost at water.resources@defra.gov.uk gan gynnwys a oes angen copi caled o'r ymgynghoriad arnoch.
- yn ysgrifenedig at Consultation Coordinator, Defra, 2nd Floor, Foss House, Kings Pool, 1-2 Peasholme Green, York, YO1 7PX

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal yn unol ag 'Egwyddorion Ymgynghori' Swyddfa'r Cabinet. Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwynion am y broses ymgynghori, anfonwch nhw ar e-bost at: consultation.coordinator@defra.gov.uk neu drwy'r post at y Cydlynnydd Ymgynghori (fel yr uchod).

Mae fersiwn o'r ymgynghoriad hwn ar gael yn Saesneg. Mae fersiwn Gwyddeleg a Sgoteg Ulster ar gael ar gais.

Cwestiwn cyfrinachedd

Cwestiwn: A hoffech i'ch ymateb fod yn gyfrinachol? [hoffwn/na hoffwn]
[Os hoffwn] Rhowch eich rheswm

Gwybodaeth am gyfrinachedd a diogelu data

Bydd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan y llywodraeth ond ni fydd yn cynnwys enwau personol, cyfeiriadau na manylion cyswllt eraill. Bydd atodiad i grynodedb yr ymgynghoriad yn rhestru'r holl sefydliadau a ymatebodd. Efallai y bydd Defra hefyd yn cyhoeddi rhywfaint neu'r cyfan o gynnwys eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Os ydych yn dewis 'Hoffwn' i'r cwestiwn uchod, gofynnir i chi nodi'n glir pa wybodaeth yr hoffech gael ei chadw'n gyfrinachol ac i egluro eich rhesymau dros gyfrinachedd. Gall

gwybodaeth o fewn ymatebion i'r ymgynghoriad hwn gael ei rhyddhau i'r cyhoedd neu bartïon eraill yn unol â chyfraith mynediad at wybodaeth. O dan y gyfraith hon, mae gennym rwymedigaeth i ddatgelu gwybodaeth mewn rhai amgylchiadau. Yn hynny o beth, byddai esbonio eich rhesymau dros ofyn am gyfrinachedd yn ein helpu i gydbwyso rhwymedigaethau datgelu a chyfrinachedd. Os byddwn yn derbyn cais am y wybodaeth a ddarparwyd gennych yn eich ymateb i'r ymgynghoriad, byddwn yn rhoi ystyriaeth lawn i'ch rhesymau dros ofyn am gyfrinachedd ond ni allwn addo y gellir ei gynnal dan bob amgylchiad.

Os ydych yn dewis 'Na hoffwn' i'r cwestiwn uchod, byddwn yn gallu rhyddhau cynnwys eich ymateb i'r cyhoedd, heb gynnwys eich enw personol a'ch manylion cyswllt preifat.

Bydd yna adegau pan fydd Defra yn rhannu eich gwybodaeth mewn ymateb i'r ymgynghoriad, gan gynnwys unrhyw ddata personol gyda dadansoddwyr allanol. Mae hyn at ddibenion dadansoddi ymatebion i'r ymgynghoriad ac i roi adroddiad o'r crynodeb o ymatebion yn unig. Gweler ein hysbysiad preifatrwydd diweddaraf ar Citizen Space am fwy o fanylion.

Sgôp Daearyddol

Ymgynghoriad ar y cyd yw hwn rhwng Cymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae effeithlonrwydd dŵr yn faes polisi lle mae gwneud penderfyniadau wedi'i ddatganoli/trosglwyddo i'r gwledydd datganoledig (Llywodraeth Cymru, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon), ac felly mae swyddogion o bob rhan o lywodraethau'r DU wedi cydweithio i lunio'r polisi hwn.

Cwestiynau Rhagarweiniol

Cwestiwn:

Dewiswch o un o'r canlynol i ddisgrifio eich diddordeb mewn labelu effeithlonrwydd dŵr gorfodol:

[Aelod o'r cyhoedd, diwydiant manwerthu, gweithgynhyrchu, corff anllywodraethol, cwmni dŵr, corff llywodraethol, cynrychiolaeth undeb, arall [nodwch]

Cwestiwn:

Nodwch pa wlad rydych yn ei hystyried wrth gwblhau'r arolwg hwn:

[DU gyfan, Cymru, Lloegr, Yr Alban, Gogledd Iwerddon, dim un]